



Ein cyf/Our ref: MA-L/KS/0051/19

Mick Antoniw AC  
Cadeirydd,  
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
[SeneddCLA@cynulliad.cymru](mailto:SeneddCLA@cynulliad.cymru)

8 Mawrth 2019

Annwyl Mick

Yn dilyn fy llythyr ar 25 Ionawr am ymateb Gweinidogion Cymru pan osodwyd y Rheoliadau Cymorth Gwladwriaethol (Ymadael â'r UE) gan Lywodraeth y DU yn Senedd y DU, rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu am safbwynt Llywodraeth Cymru o ran yr Offeryn Statudol cysylltiedig: **Rheoliadau Rheoliad (EC) rhif 1370/2007 (Rhwymedigaethau Gwasanaeth Cyhoeddus mewn Trafnidiaeth) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019** ('OS y PSO').

Fel y gwyddoch, gosodwyd **Rheoliadau Cymorth Gwladwriaethol (Ymadael â'r UE) 2019** gan yr Adran Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol yn Senedd y DU ar 21 Ionawr. Yn ein barn ni, nid yw cymorth gwladwriaethol yn fater sydd wedi'i gadw'n ôl ac o dan delerau'r Cytundeb Rhynglywodraethol, rydym yn credu y dylid bod wedi gofyn i Weinidogion Cymru am eu caniatâd cyn gosod yr offeryn. Hefyd, rydym yn siomedig nad yw'r rheoliadau, fel y maent wedi eu gosod, yn darparu ar gyfer gwneud penderfyniadau drwy gydsyniad rhwng y naill a'r llall ac nad ydynt yn darparu trefniant Cymorth Gwladwriaethol sydd wir yn eiddo i bob un o'r pedair Llywodraeth yn y DU.

Mae ein barn am gymorth gwladwriaethol yn effeithio ar OS y PSO. Mae Rheoliad 1370/2007 yn pennu'r amodau ar gyfer digolledu gweithredwyr rhwymedigaethau gwasanaeth cyhoeddus (PSO) am y costau y maent yn eu hysgwyddo wrth gynnal eu rhwymedigaethau gwasanaeth cyhoeddus. Mae Rheoliad 1370 yn darparu ar gyfer eithrio'r sector rhag y rheolau cyffredinol ar gymorth gwladwriaethol (gwasanaethau trafndiaeth teithwyr cyhoeddus ar y ffyrdd a'r rheilffyrdd), gan ryddhau'r awdurdodau cyhoeddus rhag gorfod cael cymeradwyaeth cymorth gwladwriaethol ymlaen llaw gan y Comisiwn bob tro y telir iawndal i weithredwr gwasanaeth cyhoeddus, cyn belled â bod yr iawndal yn clydymffurfio â gofynion Rheoliad 1370/2007.

Serch hynny, rydym yn sylweddoli bod angen sicrhau bod y llyfr statud yn weithredol ar y diwrnod ymadael, ac yn cydnabod bod y cywiriadau i'r ddeddfwriaeth sy'n sail i drefn masnachfaint y rheilffyrdd a sefydlwyd gan yr OS hwn yn hanfodol er mwyn i'r gwasanaethau rheilffyrdd ar draws y DU allu parhau.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400  
[PSCGBM@gov.wales](mailto:PSCGBM@gov.wales)/[YPCCGB@llyw.cymru](mailto:YPCCGB@llyw.cymru)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

At hynny, mae trafodaethau'n mynd rhagddynt â swyddogion yr Adran Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol i ddatblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer rhedeg system cymorth gwladwriaethol ar gyfer y DU yn gyfan.

Mae'r Adran Drafnidiaeth wedi'n hysbysu ni y bu'n rhaid gosod yr OS ar gyfer sifftio ar 28 Ionawr er mwyn cael digon o amser iddo ddod i rym ar y diwrnod ymadael pe bai'r pwyllgorau sifftio yn penderfynu y dylai'r OS ddilyn y drefn gadarnhaol. Fodd bynnag, mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan na chaiff yr offeryn ei wneud heb ganiatâd Gweinidogion Cymru.

Mae'n glir i ni fod y terfynau amser eithriadol sydd ar ein gwarthaf yn cyfyngu ar sgôp unrhyw negodi ar y pwnc cymhleth hwn sydd wedi para heb ei ddatrys ers blynyddoedd lawer. Rydym felly yn fodlon bod yn bragmatig yn hyn o beth er mwyn diogelu pobl a chaniatáu'r OS yn ei gyfanrwydd am nad oes gwahaniaeth o ran polisi rhyngom ac y byddai'n lleddfu pryderon yr Awdurdodau Datganoledig. Nid yw hyn, serch hynny, yn rhagfarnu'n safbwynt am gymhwysedd deddfwriaethol mewn cysylltiad â chymorth gwladwriaethol.

Mae Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth wedi ysgrifennu at yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Drafnidiaeth, Andrew Jones AS, sy'n gyfrifol am yr OS hwn, i gyfleu'r farn hon a bydd trafodaethau'n para rhwng y ddwy weinyddiaeth.

Byddwn yn hysbysu Aelodau'r Cynulliad am hyn trwy ddatganiad ysgrifenedig cyn hir.

Yn gywir



**Jeremy Miles AC**

Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit  
Counsel General and Brexit Minister